



EITEM AR YR AGENDA: 10

PANEL GWEITHREDOL AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

17eg Medi 2012

ADRODDIAD MONITRO YR IAITH GYMRAEG

Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân

Diben yr Adroddiad

- 1 Ceisio cymeradwyaeth i Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2011-12 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Comisiynydd Iaith.

Y Cefndir

- 2 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lunio adroddiad manwl sydd yn nodi'r cynnydd a wnaed i gwrdd â'r targedau a amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth. Yn y gorffennol roedd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am gymeradwyaeth ond bydd yr adroddiad eleni yn cael ei gyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn unol â'r trefniadau newydd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Gwybodaeth

- 3 Y llynedd, canmolwyd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg am gyflwyno adroddiad cynhwysfawr a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ac yn tynnu sylw at gynnydd a wnaed wrth weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2010-11.
- 4 Unwaith eto, dyma gyfnod pryd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cael cryn gynnydd mewn perthynas â Gymraeg. Cydnabuwyd ei waith yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle trwy gael ei enwebu am un o Wobrau Ysbrydoli Cymru yng nghategori Cymraeg yn y Gweithle – roedd ymhlith tri

sefydliad a oedd ar y rhestr fer ar gyfer y wob, a chafodd ei wahodd i seremoni gyflwyno yng Nghaerdydd ar 15^{fed} Mehefin 2012.

- 5 Mae'r cyfnod 2011-12 hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â darparu ein harchwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn ddwyieithog. Mae hyn yn dilyn yr ymgyrch 'Mae Gen Ti Ddewis', gyda'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn cydweithio i godi proffil archwiliadau diogelwch tân dwyieithog. Yn y Gogledd, mae nifer y trigolion sy'n erbyn archwiliadau diogelwch tân yn y cartref trwy gyfrwng y Gymraeg wedi parhau i godi flwyddyn ar ôl blwyddyn. Ers lansio'r fenter, bu cynnydd o 6% i 11%, ac yna, yn ddiweddar i 20% yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Mae'r ymgyrch yn dal yn cael ei hyrwyddo ar wefannau'r gwasanaethau tân ac achub, gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, ac wrth hyrwyddo archwiliadau diogelwch tân yn y cartref mewn digwyddiadau cyhoeddus.
- 6 Mae Cynllun Iaith Gymraeg GTAGC yn datgan bod gofyn i bob aelod newydd o'r staff, a'r rhai sy'n llwyddo i gael dyrchafiad, ddysgu Cymraeg sgysiol sylfaenol ar safon Lefel 2 yn ein rhaglen CD, ac mae hyn hefyd wedi parhau i gael ei hyrwyddo ymhlith staff yn ystod 2011-12. Mae nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus yn ymwneud â dysgu Cymraeg wedi digwydd er mwyn rhoi cyfle i staff fanteisio ar y rhaglen ddysgu hon ac i ddysgu rhagor am yr adnoddau Cymraeg sydd ar gael. Hefyd, gwelwyd mentrau newydd megis 'Mercher 'Marfer' / Welsh Wednesday a digwyddiadau Dydd Gŵyl Ddewi er mwyn ennyn rhagor o ddiddordeb yn yr iaith, a chyflwynwyd gwobrau cyrhaeddiad i staff sydd wedi gwneud cyfraniad i'r Gymraeg ac wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddysgu'r iaith.
- 7 Mae'r Adroddiad Monitro hefyd yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed wrth hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle yn ogystal â darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Derbyniwyd grant gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn rhoi hwb i'n hymdrechion yn y maes hwn. Roedd y prosiect yn cynnwys adnabod a chefnogi Hyrwyddwyr y Gymraeg yn y rhanbarth, a hyrwyddo cyfarfodydd dwyieithog yn fewnol. Parhaodd y prosiect i ddatblygu dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac ym mis Mawrth 2012 fe drefnodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru seminar ar gyfer Hyrwyddwyr y Gymraeg yng Nghanolfan Fusnes Conwy, a gynhaliwyd ar y cyd am y tro cyntaf gyda Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Dyma ffordd ardderchog o wneud arbedion ariannol, yn ogystal â rhoi cyfle i rannu arferion da a chodi proffil y gwahanol weithgareddau yn y



sefydliadau hyn. Hefyd, mae cyfarfodydd y Fforwm Diogelwch Cymunedol, sy'n cynnwys Uwch Swyddogion a Rheolwyr, yn cael eu cynnal yn ddwyieithog. Mae aelodau'r staff wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleusterau cyfieithu ar y pryd, ac mae nifer y bobl sy'n dewis cyfrannu yn Gymraeg yn cynyddu gan bwyll gyda phob cyfarfod sy'n cael ei gynnal.

- 8 Mae data yn ymwneud â sgiliau a dysgu Cymraeg yn cael ei gasglu a'i gofnodi yng nghronfa ddata AD. Mae'r gronfa ddata yn parhau i gael ei datblygu i gynnwys gwybodaeth hunanasesol gan y staff am eu sgiliau Cymraeg, asesiad ffurfiol yn Lefelau 1-5, cyrhaeddiad yn sgiliau cwrteisi Lefelau 1, 2 a 3, achrediad mewn hyfforddiant iaith Gymraeg, yn ogystal â'r sgiliau sy'n ofynnol yn ôl swyddi ac sy'n cael eu diffinio mewn swydd-ddisgrifiadau. Mae'r data a gofnodwyd yn 2011-12 ar gael yn yr Adroddiad Monitro, ac mae'n rhoi crynodeb o'r prif ganfyddiadau gan nodi'r canlyniadau cadarnhaol a'r heriau parhaus y bydd y Gwasanaeth yn mynd ar eu holau eto yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn ceisio gwella.
- 9 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i hyrwyddo'r iaith ac annog datblygiad sgiliau Cymraeg ymhlith ei staff. Mae'r gwaith hwn yn sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog yn cael eu darparu i bobl Gogledd Cymru, ac mae'n annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Argymhelliad

- 10 Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg, ac yn cymeradwyo Adroddiad Monitro 2011-12 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.



**Adroddiad Monitro Awdurdod Tân ac Achub
Gogledd Cymru i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar
gyfer y cyfnod
31ain Mawrth 2011 – 1af Ebrill 2012**



Cynnwys

Tud

1. Cyflwyniad	3
2. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun	11
3. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg	12
4. Dangosyddion Perfformiad y Gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r Iaith Gymraeg.	17

Atodiad 1 Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2010-13

Atodiad 2 - Polisiâu SAPPO

Atodiad 3 – Datganiadau i'r Wasg

Atodiad 4 – Cyngor Pob Pythefnod i'r Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg

Atodiad 5 – Ebyst Mercher 'Marfer

Atodiad 6 – Cylch Gorchwyl Grŵp Strategol y Gymraeg



1. Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2011 hyd 1 Ebrill 2012.

Unwaith eto, mae hwn wedi bod yn gyfnod lle mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyflawni cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Mae'r iaith Gymraeg yn parhau'n gadarn ar agenda'r Gwasanaeth yn dilyn cymeradwyo'n swyddogol ein Cynllun Iaith Gymraeg 2010-13.

Rydym ni wedi parhau gyda'n hymrwymiad i wella ein hagwedd gadarnhaol tuag at y defnydd o Gymraeg yn ein gweithle, yn ogystal â'r gymuned a'r gwasanaethau rydym ni'n eu darparu i bobl Gogledd Cymru. Mae'r gweithgareddau wnaethom ni eu lansio ar ddiwedd 2009 i geisio cyrraedd y nod hwn wedi parhau i fynd o nerth i nerth.

Isod, ceir amlinelliad o'r gweithgareddau yn ystod y cyfnod adrodd penodol yma;

- Eleni rydym wedi cael cydnabyddiaeth o'n gwaith difflino i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle drwy gael ein henwebu am Wobr Ysbrydoli Cymru yn y categori Cymraeg yn y Gweithle. Roeddem ymhlith tri o sefydliadau eraill a gafodd eu henwebu am y wobr ac a oedd yn bresennol yn ystod y seremoni wobrwyo a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 15 Mehefin 2012.
- Fe gynhaliwyd wythnos o ddigwyddiadau i ddathlu Gŵyl Ddewi ar hyd a lled y Gwasanaeth ym mis Chwefror a mis Mawrth. Cafwyd stondin gwybodaeth yn y Pencadlys a chymrodd sawl aelod o staff ran yn ein cwis dydd Gŵyl Dewi. Bwriad y digwyddiadau hyn oedd ennyn diddordeb pobl yn y Gymraeg a'u hannog i siarad Cymraeg a dysgu mwy am ddiwylliant Cymru.
- Rydym wedi bod yn annog ein staff i wneud defnydd o feddalwedd megis Cysgliad a To Bach. Mae'r feddalwedd hyn bellach ar gael ar derfynellau gweinyddu er mwyn i staff y Gwasanaeth gael eu defnyddio.
- Mae'r Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol wedi rhwydweithio gyda grŵp yng Ngwynedd o'r enw Hunaniaeth i sefydlu Academi Iaith Gymraeg. Ariannwyd y prosiect hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac fe gynhaliwyd yr Academi yn yr hydref. Fe gymrodd tri o'n Uchel Swyddogion ran yn y cwrs arloesol yma a oedd yn annog rheolwyr i arwain drwy osod esiampl a chyflwyno mwy o Gymraeg i'r gweithle. Roedd y cwrs yn cynnwys sesiynau ar sut i gadeirio cyfarfodydd dwyieithog, siarad cyhoeddus a chyfathrebu gyda'r wasg a chysiau gloywi iaith.
- Mae'r Gwasanaeth yn cyflwyno dwy wobr i staff yn flynyddol, sef un am 'Gyfraniad Rhagorol i'r Iaith Gymraeg' a'r llall i 'Ddysgwr y Flwyddyn'. Eleni bydd y wobr Dysgwr y Flwyddyn yn cael ei chyflwyno i'r enillydd ar faes



Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri 2012. Gofynnwyd i staff enwebu aelodau o staff roeddynt yn credu eu bod yn haeddu'r wobwr ac fe ddewiswyd yr enillydd gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân sydd bellach yn gyfrifol am yr Iaith Gymraeg. Cafodd y sawl buddugol ei henwebu gan dri o'i chydweithwyr a oedd yn awyddus i gydnabod ei brwdfrydedd a'i dyfalbarhad. Mae'r unigolyn dan sylw yn Bennaeth ar yr adran Technoleg Gwybodaeth a Chyfatebu ac mae bellach yn siarad Cymraeg yn rhugl. Bydd yr unigolyn yn mynd ymlaen i godi ymwybyddiaeth iaith fel un o'n Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg dros y flwyddyn nesaf. (Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad 3)

- Mae'r wobwr Cyfraniad Rhagorol i'r Iaith Gymraeg yn cael ei chyflwyno yn ystod seremoni wobrwyo flynyddol y Gwasanaeth ym mis Medi. Mae'r wobwr yn cael ei chyflwyno i aelod o staff sydd wedi cael ei enwebu gan ei gyfoedion/chyfoedion ac a ddewiswyd o restr fer gan y tîm o Brif Swyddogion. Eleni fe gyflwynwyd y wobwr i Siân Vaughan, un o'n Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg, sydd yn gweithio yn y Canolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd.
- Fe welodd mis Medi 2008 gyflwyno rhaglen CDs sgiliau cwrteisi ieithyddol Cymraeg Lefel 1 a 2 Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (yn debyg i'r un a fabwysiadwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ar y cyd â Choleg Llysfasi) ac mae'r rhaglen hon wedi parhau i gael ei hyrwyddo ymysg staff yn ystod 2011-12. Mae'n rhaid i staff newydd neu staff sy'n edrych am ddyrchafiad gyflawni lefel 2 o'r rhaglen CD. Anogir staff cyfredol i wella eu sgiliau drwy'r rhaglen hefyd. Mae nifer o ddigwyddiadau dysgu Cymraeg llwyddiannus wedi cael eu cynnal mewn gwahanol orsafoedd tân dros Ogledd Cymru i roi cyfle i staff fanteisio ar y rhaglen ddysgu hon a dysgu mwy am yr adnoddau iaith Gymraeg sydd ar gael. Mae ein Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg, a sefydlwyd fel rhan o'r nawdd a dderbyniwyd gan y Bwrdd, wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi staff sydd yn awyddus i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg.
- Mae data am sgiliau iaith Gymraeg a dysgu Cymraeg yn cael eu casglu a'u cofnodi yn Workforce, sef cronfa ddata'r adran AD. Mae'r gronfa ddata yn parhau i gael ei datblygu a'i mireinio i gynnwys gwybodaeth hunanasesiadau staff ac asesiadau ffurfiol am eu sgiliau yn Gymraeg, cyflawni sgiliau cwrteisi Lefel 1, 2 a 3, a hyfforddiant achredu a iaith Gymraeg yn ogystal â'r sgiliau sydd eu hangen mewn swyddi a'r diffiniad mewn swydd-ddisgrifiadau. Roedd y data hwn ar gael am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf gan ddarparu cip olwg cyfoes ar y sgiliau iaith Gymraeg o fewn y Gwasanaeth ar gyfer y cyfnod adrodd 2010-11. Mae'r bas data yn y brosos o gael ei ddatblygu ymhellach i wella effeithiolrwydd a chywirdeb yr ystadegau, a bydd yn parhau i fod yn offeryn adrodd gwerthfawr. Yn Adran 4, adroddir ynghylch yr ystadegau a gofnodwyd - Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg Mae'r data yn crynhoi'r prif swyddogaethau, cydnabod canfyddiadau positif a meysydd yr ydym wedi eu targedu ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn i ddod.
- Ym mis Mawrth 2011 cyfunodd y ddau grŵp a oedd yn cwrdd yn rheolaidd i symud ymlaen a monitro materion yr Iaith Gymraeg - sef Y Gweithgor Iaith



a'r Grŵp Iaith Gymraeg Strategol - a chreu un grŵp, sef Y Fforwm Gymraeg. Mae'r Fforwm yn cynnwys staff allweddol sydd yn canolbwyntio ar sicrhau fod cynnydd gyda'r iaith Gymraeg yn cael ei yrru ymlaen.

- Ym mis Mawrth 2012 cytunodd y Fforwm iaith y dylai fod gan y Gwasanaeth y gallu i asesu sgiliau iaith Gymraeg waeth beth yw'r lefel sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd. Y nod yw cael darlun clir o'r sgiliau iaith Gymraeg sydd gan ein staff. Bellach mae dau aelod o staff, y Cyfieithydd a'r Swyddog Iaith Gymraeg a'r Rheolwr Datblygu Pobl, wedi derbyn hyfforddiant gan Goleg Llysfasi er mwyn ymgymryd â'r dasg o asesu siaradwyr rhugl.
- Cyflogwyd Cyfieithydd a Swyddog Iaith newydd gan y Gwasanaeth ym mis Mai 2010 sydd â'r rôl o ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth cyfieithu Saesneg - Cymraeg, yn ogystal â hyrwyddo'r iaith yn rhagweithiol ymysg staff. Dychwelodd y person yma i'w swydd ar ôl cyfnod mamolaeth ym mis Medi 2011.
- Fe ymgymerodd y Cyfieithydd a'r Swyddog Iaith Gymraeg hyfforddiant pellach i allu darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn fewnol yn ychwanegol i'r terfniadau allanol ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn offer cyfieithu ar y pryd ac wedi buddsoddi mewn offer pellach eleni i allu darparu'r gwasanaeth i grŵp mwy o bobl. Mae hyn yn cyd-daro gyda'n nod i ddarparu gwell dewis iaith mewn cyfarfodydd mewnol - ac i gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i staff.
- Bellach mae'r Fforwm Diogelwch Cymunedol a'r Fforwm iaith Gymraeg, sydd yn cynnwys Uchel Reolwyr a Swyddogion, yn cael eu cynnal yn gwbl ddwyieithog. Mae'r ymateb i gyflwyno gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi bod yn hynod bositif ac y mae'r nifer o bobl sydd yn dewis siarad Cymraeg yn y cyfarfodydd hyn yn cynyddu o gyfarfod i gyfarfod. Rydym yn parhau gyda'n hymrwymiad i gyflwyno mwy o Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol ac y mae'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i unrhyw un yn ôl y galw.
- Mae Sesiynau Ymwybyddiaeth iaith yn parhau i gael eu cyflwyno i staff newydd. Y Cyfieithydd a'r Swyddog Iaith sy'n cyflwyno'r sesiynau hyn. Mae hi wedi bod yn her o ran cyflwyno'r hyfforddiant yma i ddiffoddwyr tân rhan amser gan fod eu hamser yn gyfyngedig iawn - ac felly rydym wedi bod yn datblygu sesiwn ymwybyddiaeth ar-lein yn fewnol ac ar hyn rydym ar fin lansio peilot o'r hyfforddiant hwn. Bydd gofyn i gyfranogwyr basio asesiad ar ddiwedd y sesiwn a'r gobaiith yw cau'r bwlch o safbwynt nifer y diffoddwyr tân rhan amser sydd yn methu bod yn bresennol yn ystod y sesiynau ymarferol.
- Mae Tanwen, y cymeriad cartŵn a gynlluniwyd i helpu i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn fewnol yn parhau i gael ei ddefnyddio fel arwyddlun a masgot poblogaidd ac mewn deunydd brandio ac eitemau hyrwyddo sydd wedi eu cysylltu gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- Ym mis Ionawr 2010, cytunodd penaethiaid gwahanol adrannau ar set newydd o Ddangosyddion Perfformiad i'r Gwasanaeth mewn perthynas â'r



Cynllun Iaith Gymraeg. Mae data wedi cael ei gasglu ar gyfer y rhain yn ystod 2011/12, a'i nodi fel rhan o'r adroddiad hwn.

- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau gyda'r gwaith a sefydlwyd yn dilyn nawdd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2009 a 2010 i hyrwyddo'r iaith yn y gweithle. Rydym yn parhau i recriwtio Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg sydd yn derbyn lwfans blynyddol am eu gwaith yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r Hyrwyddwyr yn parhau i dderbyn cyngor ar sut i hyrwyddo'r Gymraeg ar ffurf e-bost a anfonir atynt bob pythefnos, sydd yn cynnwys taflenni gwaith a gynhyrchir gan Goleg Llysfasi. (Gwelwer Atodiad 4 am enghreifftiau o'r e-byst a'r taflenni gwaith)
- Ym mis Mawrth 2012 fe drefnodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Seminar i Bencampwyr Iaith Gymraeg a gynhaliwyd yng Nghanolfan Busnes Conwy. Am y tro cyntaf eleni fe benderfynom gynnal y seminar hwn ar y cyd gyda nifer o sefydliadau eraill yng Ngogledd Cymru sef Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd yn ffordd wych o arbed arian yn ogystal â chyfle i rannu arferion da a chodi ymwybyddiaeth am yr hyn sydd yn mynd ymlaen yn y gwahanol sefydliadau. Ymhlith y siaradwyr gwadd roedd cynrychiolwyr o fudiad TWF a Phrifysgol Bangor.
- Er mwyn helpu i hyrwyddo a chyfathrebu gweithgareddau a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn fewnol, mae'r Gwasanaeth yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff am ddigwyddiadau mewn erthyglau rheolaidd, yn ogystal ag yn Y Golofn Gymraeg sy'n ymddangos ym mhob rhifyn o'r Fflam, sef y cylchgrawn mewnol i staff. Rydym ni hefyd yn parhau gydag 'Ymadrodd yr Wythnos' sy'n cael ei gynnwys mewn taflen newyddion sy'n cael ei hanfon i staff yn wythnosol.
- Ers mis Ebrill 2011 rydym wedi sefydlu 'Mercher 'Marfer' - menter i godi ymwybyddiaeth o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn ogystal ag adref. Fe anfonir e-bost i bob aelod o staff ar ddydd Mercher cyntaf y mis sydd yn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â gwybodaeth am gyrsiau lleol a digwyddiadau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Nod yr e-byst hyn yw annog siaradwyr rhugl a dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg. (Ceir enghreifftiau o'r e-byst hyn yn Atodiad 4)
- Rydym ni wedi parhau i gryfhau partneriaethau gyda Choleg Llysfasi, Coleg Llandrillo, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Gwasanaeth Prawf. Mynychodd staff gyrsiau oedd wedi eu cynnig drwy Goleg Llysfasi i'w helpu i gael llwyddiant yn ein rhaglen CD Lefel 2 a Lefel 4. Mae rhannu gwybodaeth a datblygu prosiectau'r iaith Gymraeg yn fater o drefn erbyn hyn. Mae staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cael gwahoddiad i fentrau sy'n cael eu cynnal gan eraill, megis cyrsiau Lefel 3 a gynhaliwyd gan Heddlu Gogledd Cymru.
- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cydweithio gyda'r ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru i lansio ymgyrch ar y cyd i hyrwyddo gwasanaeth dwyieithog er mwyn helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag tân yn y cartref. Lansiodd yr ymgyrch yn Eisteddfod Genedlaethol yr



Urdd yn Llanerchaeron ym mis Mehefin 2010. Ymestynnodd yr ymgyrch 'Mae Gen Ti Ddewis' ym mis Mawrth 2011 pan gydweithiodd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub unwaith eto i gynhyrchu DVD newydd yn hyrwyddo archwiliadau diogelwch tân yn y cartref gyda Sarra Elgan a chodi proffil y ffaith fod archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ar gael yn y Gymraeg. O ganlyniad i'r ymgyrch, mae'r nifer o drigolion sy'n derbyn archwiliadau diogelwch tân yn y cartref trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu'n fawr yng Ngogledd Cymru. Ers lansio'r ymgyrch rydym wedi gweld cynnydd sylweddol cyson yn nifer yr archwiliadau diogelwch tân sydd yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg o 6% i 20% yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf (gweler adran 4 am ragor o wybodaeth). Mae'r DVD yn parhau i gael ei ddangos ar wefannau'r gwasanaethau tân ac achub, ar ein safleoedd rhwydweithio ac yn cael eu defnyddio i hyrwyddo ein gwasanaeth archwiliadau diogelwch tân yn y cartref i'r cyhoedd yn ein digwyddiadau yn ystod yr haf.

- Y llynedd fe gynhyrchwyd ffolderi iaith Gymraeg a'u dosbarthu i bob lleoliad fel adnodd gwerthfawr i staff yn cynnwys gwybodaeth ar bopeth sy'n gysylltiedig gyda'r iaith Gymraeg, mae'r ffolderi'n cynnwys copïau o'r cyflwyniad ymwybyddiaeth iaith Gymraeg gorfodol, llyfryn i gyd-fynd gyda'r cyflwyniad, adnoddau ar-lein i ddysgwyr Cymraeg, gwybodaeth gswllt i Bencampwyr, Polisi iaith Gymraeg y Gwasanaeth a chopïau o CDs Lefel 1 a 2. Eleni fe gynhaliodd y Rheolwr Datblygu Pobl archwiliad o'r ffolderi hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod pob adran wedi derbyn copi a bod yr adrannau yn defnyddio'r ffolderi hyn.
- Erbyn diwedd Mawrth 2010, roedd y cyfleuster galluogi llais wedi cael ei osod yn llwyddiannus ar y wefan yn Gymraeg a Saesneg, gan roi cymorth i'r rhai gydag unrhyw anabledd darllen neu sy'n cael trafferth darllen ar sgrin maint cyfyngedig. Mae'r cyfleuster hwn galluogi llais ar gynnwys testun ar-lein yn ei gwneud hi'n haws i lawer ddeall yr wybodaeth ar y rhyngwyd ac yn parhau i fod yn arf defnyddiol iawn i nifer o ddefnyddwyr. Eleni rydym wedi cychwyn ar y gwaith o ailwampio ac adnewyddu cynnwys ein gwefan a fydd yn cael ei lansio'n swyddogol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Disgwylir i'r teclyn hwn barhâi i gael ei ddefnyddio yn dilyn lansiad ein gwefan newydd fel y gallwn rannu ein negeseuon diogelwch tân â phobl fregus a grwpiau targed yn eu hiaith ddewisol.
- Mae mewnwyd ddwyieithog y Gwasanaeth Tân ac Achub a lansiwyd yn Ebrill 2008 wedi cael ei derbyn fel dull cyfathrebu dydd i ddydd gwerthfawr i holl staff ac yn parhau i gael ei datblygu, gan ddarparu delwedd ddwyieithog yn fewnol a chynnig dewis iaith i staff. Mae adrannau ar adnoddau'r iaith Gymraeg, canllaw i ddysgwyr a chynghor gan Bencampwyr yr iaith Gymraeg wedi cael ei ymestyn ymhellach ac wedi eu sefydlu fel adnodd gwybodaeth werthfawr. Yn ddiweddar cafodd y Gornel Gymraeg ar y fewnwyd ei diweddarau ac y mae bellach yn cynnwys gwybodaeth am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, digwyddiadau lleol, gwybodaeth i siaradwyr rhugl ar sut i fynd ati i gyflwyno mwy o Gymraeg yn



y gweithle a llawer mwy. Mae'r gornel yn cael ei diweddaru'n gyson fel bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gyrsiau a digwyddiadau ar gael i'n staff.

- Ar ôl i'r Gwasanaeth fabwysiadu cyfeiriadau e-bost Cymraeg ar gyfer pob aelod o staff a grwpiau penodol yn ôl yn 2010, rydym yn parhau i annog staff i ddefnyddio'r cyfeiriadau hyn wrth gysylltu â staff a sefydliadau allanol.
- Mae rhwydweithio cymdeithasol wedi cael ei sefydlu'n gadarn fel rhan o Strategaeth Gyfathrebu swyddogol y Gwasanaeth gyda dros 2,400 o gefnogwyr ar dudalen Facebook y Gwasanaeth a bron i 2,800 yn dilyn y Gwasanaeth ar Twitter. Mae diweddariadau ar Facebook a Twitter bellach yn cael eu darparu'n ddwyieithog fel mater o arfer gyda phobl yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â ni'n rheolaidd yn Gymraeg.



2. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun

Y Dirprwy Brif Swyddog Tân Cynorthwyol, Dawn Docx, sydd yn gyfrifol am bortffolio'r iaith Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub ers ymddeoliad y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Colin Hanks ym. Mae'n cadeirio'r Fforwm Iaith Gymraeg sy'n cyfarfod yn chwarterol. Mae Grŵp Iaith Gymraeg Cymdeithas y Prif Swyddogion sydd hefyd yn cyfarfod yn chwarterol bellach yn cael ei gadeirio gan Gareth Griffiths, Uwch Reolwr Diogelwch Tân. Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei gynrychioli yn y cyfarfodydd hyn cyn diddymiad y Bwrdd ac mae cynrychiolwyr o Dde Cymru a Gorllewin a Chanolbarth Cymru ar y pwyllgor. Prif nod y Grŵp yw monitro beth sy'n digwydd o ran y Gymraeg o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

Mae'r Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol yn gyfrifol am weinyddiaeth dydd i ddydd y Cynllun Iaith Gymraeg.

Ym mis haf 2009, daeth swydd y Cyfieithydd yn wag ac fe gafwyd cyfle i ailwerthuso ac ailddiffinio'r swydd. O ganlyniad, ailenwyd y swydd yn 'Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt yr Iaith Gymraeg', gan gyflwyno pwyslais newydd ar hyrwyddo'r iaith a disgrifiad swydd diwygiedig. Dechreuodd deiliad y swydd ei rôl newydd ym mis Mai 2010 ac yn hwyrach cymerodd gyfnod mamolaeth o Ionawr 2011 hyd at Fedi 2011. Mae'r 'Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt yr Iaith Gymraeg' bellach wedi dychwelyd i'w swydd.

Mae penderfyniadau fel cymeradwyo'r Cynllun Iaith Gymraeg, sy'n ymgorffori'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, yn mynd gerbron y Grŵp Gweithredol ac yna gerbron y Awdurdod Tân ac Achub.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn parhau i fynychu pwyllgorau a gweithgorau sy'n cyfranogi mewn hyrwyddo dwyieithrwydd.

Mae'r Fforwm Iaith, sy'n cynnwys aelodau o staff o wahanol adrannau fel Adnoddau Dynol, Cyfathrebiadau Corfforaethol, Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am y Cynllun Iaith Gymraeg, ac fe wnaeth y Fforwm Iaith gyfarfod ar y dyddiadau canlynol yn y flwyddyn fonitro:

- Mehefin 2011
- Medi 2011
- Rhagfyr 2011
- Mawrth 2012

Mae Grŵp yr Iaith Gymraeg Cymdeithas y Prif Swyddogion Cymraeg yn cynnwys staff sy'n ymdrin gyda materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg o Ogledd Cymru, De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Hyd yn ddiweddar roedd y cyfarfod



yn cael ei gadeirio gan Colin Hanks, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol ac roedd Dylan Jones o Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn gynrychiolydd ar y cyfarfod hefyd. Fe gynhaliwyd y cyfarfodydd ar y dyddiadau canlynol yn y flwyddyn monitro ac mae copiâu o'r cofnodion ar gael ar gais.

- Mai 2011
- Awst 2011
- Tachwedd 2011
- Chwefror 2012

Mae staff yn cynrychioli'r Gwasanaeth ar gyfarfodydd eraill, gan gynnwys:

- Rhwydiaith
- Fforwm Dwyieithog Gogledd Cymru
- Siarter Iaith Gymraeg Gwynedd
- Hunaniaith



3. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Hyrwyddo'r Cynllun yn fewnol			
Ceisio ffyrdd i godi proffil y Cynllun trwy: hyfforddiant ymwybyddiaeth a mynediad at gyngor a chyfarwyddyd.	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol	<p>Yn ystod 2011/12 nid ydym wedi recriwtio llawer o staff ac roedd y Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg wedi bod ar gyfnod mamolaeth am gyfnod.</p> <p>Mae modiwl ymwybyddiaeth iaith ar-lein ar fin cael ei gwblhau a bydd hwn yn cynnwys asesiad.</p> <p>Mae pob aelod o staff yn derbyn gwybodaeth am yr iaith Gymraeg yn y pecyn cyfarwyddo.</p> <p>Parhad o'r fewnrwyd ddwyieithog gydag adrannau ar yr iaith Gymraeg, canllawiau i ddysgwyr a gwybodaeth am hyrwyddwyr, gyda gwybodaeth ychwanegol yn cael ei fwydo i staff drwy Ddiweddariad y Prif Swyddog a'r Fflam.</p> <p>Parhad o brosiect Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo Cymraeg yn fewnol gan ddefnyddio'r Pencampwyr a chyflwyno mwy o Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol.</p>	<p>Cyfeirier at y Cynllun Iaith Gymraeg yn y Sesiynau Ymwybyddiaeth iaith. Yn y dyfodol, bydd asesiad yn dystiolaeth o hyfforddiant.</p> <p>Mewnrwyd, Diweddariad y Prif Swyddog, Y Fflam</p>



<p>Hyrwyddo'r Cynllun yn allanol</p>			
<p>Parhau i geisio ffyrdd i wella effeithiolrwydd ein gwefan wrth hyrwyddo ein delwedd fel sefydliad ddwyieithog.</p>	<p>Swyddog Cyfathrebiadau Corfforaethol</p>	<p>Mae'r wefan yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnwys gwybodaeth am Gynllun yr Iaith Gymraeg. Mae gwybodaeth am ein Cynllun Iaith Gymraeg 2010-13 diwygiedig wedi cael ei ychwanegu i'n gwefan. Mae safleoedd rhwydweithio cymdeithasol sydd wedi eu mabwysiadu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar Facebook a Twitter yn ddwyieithog hefyd.</p> <p>Mae'r wefan wedi cael ei ailwampio a bydd yn cael ei lansio ym mis Mai 2012 – bydd yn aros yn gwbl ddwyieithog.</p>	<p>Gweler gwefan/nau http://www.nwales-fireservice.org.uk/page.asp?page=114 www.facebook.com/northwalesfireservice www.twitter.com/northwalesfire</p>
<p>Paratowyd arweiniad i asiantaethau allanol a chontractwyr er mwyn tynnu eu sylw at ofynion y Cynllun. Hyn i gynnwys anogaeth gref gan drydydd parti sydd yn gweithio yn adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub i godi arwyddion ddwyieithog.</p>	<p>Rheolwyr Cefnogi Gwasanaethau</p>	<p>Mae Adran Cyfleusterau'r Gwasanaeth yn cael ei rhannu gyda'r Heddlu, ac yn cael ei gweithredu rhwng y ddau sefydliad.</p>	<p>Mae'r paragraff isod yn cael ei ychwanegu i unrhyw ddogfennau/gwaith papur sy'n cael ei anfon i gontractwyr: <i>Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cymeradwyo ei Gynllun Iaith Gymraeg sy'n nodi fod pob arwydd dros dro neu barhaol ar ei safle yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cyngorir contractwyr i gydymffurfio gyda'r polisi hwn ac i gysylltu gyda Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub ar 01745 535285 am gyngor a gwasanaethau darllen proflenni am unrhyw arwyddion cyn eu cynhyrchu'n derfynol.</i></p>



Diweddarau'r wybodaeth a roddwn i gontractwyr ac eraill er mwyn ail-bwysleisio pwysigrwydd ein delwedd gyhoeddus ddwyieithog.	Rheolwr Ystadau	Cynhyrchwyd taflen ddwyieithog i'w dosbarthu i gontractwyr.	Gweler uchod
Datblygu system lle mae cyfarwyddyd ysgrifenedig ynghylch ein Cynllun Iaith yn cael ei roi fel mater o drefn i asiantaethau a chontractwyr allanol.	Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi		Gweler uchod
Darparu'r isadeiledd mewnol			
Egluro'r cyfrifoldebau o ran rhoi cyngor a chyfarwyddyd am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.	Cyfieithydd	Mae gwybodaeth ar y cynllun wedi ei gynnwys ar y fewnwyd ac mewn dau bolisi SAPPO ac fe fanteisir ar gyfleoedd i bwysleisio materion yr Iaith Gymraeg yn Niweddariad y Prif Swyddog a'r Fflam	Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO - gweler Atodiad 1 a 2.
Pennu pa grwpiau a fyddai'n goruchwyllo'n fwyaf effeithiol y gwahanol dasgau sy'n ymwneud â'r strategaeth sgiliau iaith yn y dyfodol, gan gynnwys cynnal cyfran ddigonol o staff sydd â sgiliau dwyieithog.	Gweithgor Iaith	Mae'r strategaeth Sgiliau Ieithyddol wedi cael ei hymgorffori yn y Cynllun Iaith Gymraeg, ac fe'i derbyniwyd a chytunwyd arni gan y Grŵp Gweithredol, yr Awdurdod a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r camau gweithredu'n cael eu monitro gan y Gweithgor Iaith a'r Grŵp Iaith Gymraeg Strategol.	Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO - gweler Atodiad 1 a 2.
Gwneud i hyn ddigwydd			
Cynyddu'r defnydd o'r cyngor a'r cyfarwyddyd priodol wrth ddatblygu polisïau a chynlluniau gwaith. Hyn i gynnwys adnabod ffyrdd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.	Cyfieithydd	Rhannu gwybodaeth, syniadau a chyngor gyda sefydliadau eraill. Prosiect hyrwyddo Cymraeg yn y gweithle wedi lansio syniadau eraill.	Gweler y diweddaraid a geir yn yr Adroddiad monitro hwn.



<p>Cryfhawyd y cyfarwyddyd a roddir i staff ynglŷn â hyrwyddo ei delwedd gyhoeddus ddwyieithog, er mwyn atgyfnerthu'r hyn mae'r Gwasanaeth yn ei ddisgwyl ohonynt.</p>	<p>Cyfieithydd</p>	<p>Trwy gyflwyniad y Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg a mabwysiadu'r angen i gyrraedd Lefel 2 mewn cwrteisi ieithyddol wrth gael eu penodi/dyrchafu o Ionawr 2010 ymlaen.</p>	<p>Cynllun Iaith Gymraeg a pholisiau SAPPO - gweler Atodiad 1 a 2.</p>
<p>Cyflwyno gosod targedau sgiliau ieithyddol i'r broses flynyddol o osod targedau. Datblygu strategaeth sgiliau iaith, yn gysylltiedig â'r strategaeth IPDS er mwyn sicrhau bod y sgiliau ieithyddol angenrheidiol ar gael o fewn y gweithlu i gyflwyno gwasanaethau yn newis iaith y cyhoedd.</p>	<p>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol</p>	<p>Mae adroddiad blaenorol a gynhyrchwyd gan Cwmni Iaith yn cael ei gysylltu gyda chronfeydd data Workforce ac yn cael eu datblygu gan AD ynghyd â'r holl ddata eraill ar sgiliau iaith Gymraeg, yr hyfforddiant a'r sgiliau sydd eu hangen mewn disgrifiadau swydd. Ers prosiect Cwmni Iaith, cafwyd cryn ailstrwythuro o fewn y Gwasanaeth gan gyflwyno amrywiaeth o rolau newydd sy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd a'u hymgorffori i'r gronfa ddata.</p>	<p>Cronfa Ddata Workforce</p>
<p>Y strategaeth hon i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Egluro pa mor ddymunol fyddai sgiliau dwyieithog i gyflawni rolau unigol yn effeithiol • Ceisio ffyrdd i gynyddu cyfran y gweithlu sy'n gallu siarad (gan gynnwys drwy dargedau addas) • Sicrhau bod gan staff ddigon o wybodaeth o'r Gymraeg i ddarparu o leiaf rhai o'n gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg • Gweithredu system addas sy'n gyson a gwrthrychol i asesu gallu ieithyddol 	<p>Rheolwr Datblygu a Rheolwr AD</p>	<p>Mae hwn yn rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg 2013-13.</p>	<p>Gweithio gydag AD i gau'r bwlch, a monitro yn y dyfodol gan ddefnyddio Workforce.</p>



Edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno gofynion newydd i rai swyddi o leiaf lle byddai gofyn i ymgeiswyr di-Gymraeg llwyddiannus am swyddi lle mae'r Gymraeg yn 'ddymunol' ymrwymo i gyrraedd lefel ragnodedig o fedrusrwydd yn Gymraeg o fewn cyfnod y cytunir arno.	Rheolwr AD	Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2013	Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO - gweler Atodiad 1 a 2.
Cael ffyrdd o sicrhau bod disgrifiadau swyddi yn cael eu datblygu sy'n adlewyrchu gofynion sgiliau dwyieithog swydd benodol (yn hytrach na rolau generig)	Rheolwr AD	Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r canllaw ar recriwtio sefydlwyd gydag AD.	Gweithio gyda'r Adran AD.
Sicrhau bod dysgu Cymraeg yn cael ei gynnwys yn rhaglen ddatblygu'r Gwasanaeth	Rheolwr Datblygu	Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg – rhaid i bob aelod newydd o staff neu rai sy'n edrych am ddyrchafiad gyflawni Lefel 2 mewn cwrteisi ieithyddol. Erbyn hyn, mae cwestiwn ar allu yn yr iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys yn yr Adolygiad Datblygu Unigol, a'i gofnodi ar Workforce.	Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO - gweler Atodiad 1 a 2.
Cyflwyno asesiadau rheolaidd o sgiliau Cymraeg staff mewn swyddi lle nodir blaenoriaeth	Cyfieithydd	Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'i fonitro drwy workforce.	Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO - gweler Atodiad 1 a 2.
Hunanyrwybyddiaeth barhaus			
Cyflwyno systemau i adnabod diffygion difrifol mewn gallu dwyieithog o fewn grwpiau o weithwyr, ac egluro'r weithdrefn ar gyfer datrys prinder trwy hyfforddiant neu aildosbarthu staff	Dirprwy Brif Swyddog Tân	Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg ac yn cael ei fonitro drwy Workforce.	Gweithio gyda'r adran AD i adnabod anghenion.



Cynyddu'r defnydd o asesiadau ansoddol priodol i sefydlu pa mor effeithiol rydym yn perfformio o ran cysylltiadau cyhoeddus	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol	Mewnrwyd ddwyieithog. Gwefan dwyieithog. Cyfweiliadau ar y cyfryngau yn ddwyieithog. Cyhoeddiadau dwyieithog. Sefydlu system o nodi galwadau gan y wasg sy'n cael eu delio yn y Gymraeg.	Deunydd Cyfathrebiadau Corfforaethol
Integreiddio'r gwaith o fonitro proffil y gwasanaeth i'r prosesau blynyddol sy'n gysylltiedig â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella	Rheolwr Cynllunio Corfforaethol	Cytunwyd gan ddefnyddio'r Dangosyddion Perfformiad newydd.	Gweler atodiad 4.
Sicrhau bod adroddiadau rheolaidd sy'n dod gerbron yr Awdurdod yn cynnwys gwybodaeth ystadegol a disgrifiadol am broffil ieithyddol y gwasanaeth a'i berfformiad. Hyn yn ychwanegol at yr adroddiadau rheolaidd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Dirprwy Brif Swyddog Tân	Mae'r adroddiad monitro blynyddol yn cael ei adrodd i'r Awdurdod a'r dangosyddion perfformiad iaith Gymraeg yn cael eu hadrodd. Bydd Aelodau'n derbyn gwybodaeth yn y Cynllun Iaith Gymraeg 2010-13 diwygiedig cyn ac ar ôl ymgynghoriad a chymeradwyaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.	Gweler atodiad.



4. Dangosyddion Perfformiad Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Tân ac Achub

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wedi ymrwmo i gyflawni 12 o Ddangosyddion Perfformiad. Cafodd y rhain eu hadolygu ym mis Ionawr 2010 i adrodd yn eu cylch yn 2010/11 fel yr amlinellir isod.

O'r 1af Ebrill 2010 hyd 31 Mawrth 2012, mae'r ffigyrau ar gyfer y dangosyddion newydd fel a ganlyn;

	Ystadegau ar gyfer 2011-12	Ystadegau ar gyfer 2010-11
PI1	Nifer a % y cyflwyniadau i ysgolion yn Gymraeg.	Nifer a % y cyflwyniadau i ysgolion yn Gymraeg.
Sylw	Darparwyd cyfanswm o 206 o gyflwyniadau i ysgolion drwy gyfrwng y Gymraeg (CA1/CA2 & CA3) - oedd yn 42% o gyfanswm y cyflwyniadau.	Darparwyd cyfanswm o 188 o gyflwyniadau i ysgolion drwy gyfrwng y Gymraeg (CA1/CA2 & CA3) - oedd yn 52% o gyfanswm y cyflwyniadau.
PI2	Nifer a % y plant sydd wedi derbyn cyngor diogelwch tân yn Gymraeg o ganlyniad i'r cyflwyniad	Nifer a % y plant sydd wedi derbyn cyngor diogelwch tân yn Gymraeg o ganlyniad i'r cyflwyniad
Sylw	Derbyniodd cyfanswm o 9733 o blant gyngor diogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg – 32% o gyfanswm nifer y plant a dderbyniodd gyngor diogelwch tân.	Derbyniodd cyfanswm o 7097 gyngor diogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg – 35% o gyfanswm nifer y plant a dderbyniodd gyngor diogelwch tân.
PI3	Nifer a % yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gyflwynwyd trwy gyfrwng y Gymraeg.	Cyfanswm nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gyflwynwyd yn y Gymraeg.
Sylw	Allan o gyfanswm o 28,496 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gyflwynwyd yn 2011/12, roedd 5,506 wedi eu gwneud yn y Gymraeg (19.32%). Profwyd y lleiafswm (15.72% allan o'r holl archwiliadau yn Gymraeg) ym mis Awst 2011 o gymharu gyda'r mwyafswm (22.56) ym mis Chwefror 2012. Hefyd mae'r data isod yn dangos cymhariaeth rhwng nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn y Gymraeg	Allan o gyfanswm o 36,522 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gyflwynwyd yn 2010/11, roedd 4,298 wedi eu gwneud yn y Gymraeg (13.49%). Profwyd y lleiafswm (7.57% allan o'r holl archwiliadau yn Gymraeg) ym mis Ebrill 2010 o gymharu gyda'r mwyafswm (17.48) ym mis Tachwedd 2010. Roedd y ffigyrau tuag at ddiwedd y flwyddyn yn llawer uwch na'r rhai ar gychwyn y flwyddyn, sy'n adlewyrchu gwaith yr ymgyrch 'Mae Gen Ti Ddewis'.



rhwng 1 Ebrill 2011 – 31 Mawrth 2012.

Sir	Cyfanswm	Cymraeg	Canran
Conwy	5587	340	6.09%
Sir Ddinbych	4441	214	4.82%
Sir y Fflint	4112	34	0.83%
G Gwynedd	4412	2414	54.71%
D Gwynedd	2235	1166	52.17%
Wrecsam	3697	10	0.27%
Ynys Môn	4012	1325	33.03%
		5506	19.32%

Mae'r data isod yn dangos cymhariaeth rhwng nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn y Gymraeg rhwng 1 Ionawr a 30 Ebrill yn 2012 (fe y gallwn gymharu â'r blynyddoedd cynt)

	Ionawr-Ebrill 2012		
	Cyfanswm	Cymraeg	Canran
Conwy	1090	82	7.52%
Sir Ddinbych	723	59	8.16%
Sir y Fflint	929	13	1.40%
Gogledd Gwynedd	759	432	56.92%
De Gwynedd	546	270	49.45%
Wrecsam	873	5	1.72%
Ynys Môn	773	338	43.73%
Cyfanswm	5693	1199	21.06%

Hefyd, mae'r data isod yn dangos cymhariaeth rhwng nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn y Gymraeg rhwng 1 Ionawr a 30 Ebrill yn 2010 a 2011, sydd hefyd yn adlewyrchu llwyddiant lansiad ymgyrch Mae Gen Ti Ddewis (Mehefin 2010) a'r DVD digidol (Mawrth 2011).

	Ion-Ebrill 2010			Ion-Ebrill 2011		
	Cyfanswm	Cymraeg	Canran	Cyfanswm	Cymraeg	Canran
Conwy	1944	52	2.67%	2507	109	4.35%
Sir Ddinbych	1992	53	2.66%	1918	73	3.81%
Sir y Fflint	2006	1	0.05%	2525	4	0.16%
Gogledd Gwynedd	1750	399	22.80%	1620	568	35.06%
De Gwynedd	563	74	13.14%	799	302	37.80%
Wrecsam	1291	1	0.08%	1277	8	0.63%
Ynys Môn	1925	106	5.51%	1646	375	22.78%
Cyfanswm	11471	686	5.98%	12292	1439	11.71%



PI4	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion iaith Gymraeg Lefel 1	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion iaith Gymraeg Lefel 1
Sylw	10-1.01%	59 – 5.69%
PI5	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion iaith Gymraeg Lefel 2	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion iaith Gymraeg Lefel 2
Sylw	17 – 1.72%	103 – 9.93%
PI6	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo i ennill Lefel 3 yn Gymraeg	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo i ennill Lefel 3 yn Gymraeg
Sylw	0 wedi cyrraedd Lefel 3 2 wedi cyrraedd Lefel 4 – 0.20% 16 wedi cyrraedd Lefel 5 – 1.62%	8 – 0.77%
PI7	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant i lefel cymhwyster y cytunwyd arni yn y Gymraeg	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel cymhwyster y cytunwyd arni
Sylw	Lefel 2 – 8 o'r uchod (0.81%) Lefel 4 – 1 (0.01%)	170 – 16.39% (Agored Cymru – credydau uned ar gyfer Lefel 1, 2 ac asesiad)
PI8	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
Sylw	Nid yw staff newydd wedi derbyn sesiynau ymwybyddiaeth yn ystod 2011-12 – nid oes llawer o staff newydd ac mae'r aelod staff sydd yn gyfrifol am gyflwyno'r sesiynau hyn wedi bod ar gyfnod mamolaeth. Fodd bynnag, rydym yn y broses o gwblhau modiwl ymwybyddiaeth ar-lein ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio tuag at sicrhau bod pob aelod o staff yn bresennol yn ystod cyflwyniad ymarferol neu'n cwblhau'r modiwl ar-lein.	65 – 6.25%



PI9	Nifer a % o swyddi lle mae Cymraeg yn hanfodol sy'n cael eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)	Nifer a % o swyddi lle mae Cymraeg yn hanfodol sy'n cael eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)
Sylw	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
PI10	Nifer a % y swyddi lle mae Cymraeg yn ddymunol sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)	Nifer a % y swyddi lle mae Cymraeg yn ddymunol sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)
Sylw	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
 - 9.5.2.3 Existing staff will be encouraged to achieve Level 1 and Level 2 on a voluntary basis;
 - 9.5.2.4 Existing staff who have direct contact with the public will be encouraged to achieve Level 4/5, through intensive Welsh language training;
 - 9.5.2.5 From January 2010, staff seeking promotion within the service will be required to achieve Level 2;

- 9.5.2.6 Training courses will enable staff to learn or improve their Welsh. A local college will provide Level 1 and 2 training courses to staff which are supplemented by Welsh Language CDs (tests will be assessed independently by a local college). The tests are linked to a nationally recognised accreditation;
 - 9.5.2.7 Through the Gweithgor Iaith working group, staff already fluent in Welsh will be identified in each county of North Wales who are willing to act as champions of the Strategy to offer assistance and advice to non-Welsh speakers prior to sitting Level 1 and 2 tests as and when required;
 - 9.5.2.8 The Linguistic Skills Strategy will be incorporated into the Service's policy on Equality and Diversity – with reference to the Seven Strands of Diversity in Wales which include the Welsh language;
 - 9.5.2.9 The Service's recruitment policy will also reflect the aims of the Linguistic Skills Strategy by reviewing the wording of recruitment material to refer to the required competences in a 'friendly' manner, to stress the need of oral Welsh and to refer to the opportunities to improve/learn Welsh as well as target recruitment material effectively.;
- 9.5.2 The Association of Language Testers in Europe (ALTE) competences (Appendix 1) provides the basis of the NWF&RS Level 1 and 2 tests and correlate as follows:
 NWF&RS Level 1 correlates to ALTE A1;
 NWF&RS Level 2 correlates to ALTE A2;
 NWF&RS Level 3 correlates to ALTE B1.

9.6 Objective 5 – Review and Report

- 9.6.1 The Review and Report Implementation of the Strategy, will be addressed once the gap has been successfully narrowed. The Service will review the Welsh Language Strategy on a regular basis, working according to the Welsh Language Board's indicators. This work will involve:
 - 9.6.1.1 Reviewing front line services: ie the number and %age of all staff who have a direct contact with the public, as well as staff in main reception areas, contact centres or one stop shop roles denoted 'Welsh essential' and filled by bilingual staff;
 - 9.6.1.2 Aiming to achieve the desired number and %age of the staff who have received training in Welsh to a specific competency level;
 - 9.6.1.3 Aiming for a desired number and %age of staff who have received language awareness training;

- 9.6.1.4 Being able to identify the number and %age of staff within the Service who can speak Welsh – by service department, by job grade, by workplace.

10. Specific Benefits to NWF&RS

- 10.1 The main benefits of adopting the Linguistic Skills Strategy are:
 - 10.1.1 Working together towards one innovative Welsh Language Scheme which encourages all new staff to demonstrate basic linguistic courtesy in Welsh;
 - 10.1.2 Providing language choice in the recruitment and appointment processes;
 - 10.1.3 Encouraging and supporting staff to learn Welsh or improve their skills through established awareness and training regimes;
 - 10.1.4 Identifying posts with a need for a specific level of ability in Welsh;
 - 10.1.5 Working towards a guaranteed language choice at primary public interfaces;
 - 10.1.6 Raising awareness of all staff – both current and new - regarding the commitment to offer a bilingual service;
 - 10.1.7 Working towards attracting more applications from Welsh speakers and learners;
 - 10.1.8 Ensuring HR internal proceedings and procedures fully acknowledge and consider ability in Welsh to be a skill, side by side with other necessary skills;
 - 10.1.9 Making the most of every opportunity to define the commitment to the Welsh language as part of the effort to acknowledge Race and Diversity matters in Wales.

11. Linking to Key Corporate Contexts

- 11.1 The Linguistic Skills Strategy is linked to the following:
 - 11.1.1 Recruitment and appointment procedures;
 - 11.1.2 'Investors in People' and Staff Development Plans;
 - 11.1.3 Training Strategy;
 - 11.1.4 The Service's corporate plan;
 - 11.1.5 The Equalities and Diversity programme;

11.1.6 The Customer Care regime.

12. Benefits to Staff

12.1 The Linguistic Skills Strategy brings the following benefits to staff:

- 12.1.1 The Strategy treats language skills in exactly the same way as any other skills which may be essential or desirable for certain posts – this is a principle generally accepted by the trade union movement;
- 12.1.2 By providing an objective means of determining skill requirements, the Strategy provides protection from over-subjective assessments;
- 12.1.3 The Strategy is part of ensuring consistency of approach in determining the language requirements of posts;
- 12.1.4 The emphasis placed on staff training, development and support will be advantageous to staff in enhancing their skills and competitiveness in the wider labour market;
- 12.1.5 The emphasis is on forward planning for the acquisition of the necessary skills gradually – not sweeping change.

13. Policy Review

- 13.1 All policies and procedures which form the basis of a SAPPO, will be reviewed on a pre-determined basis. This will be the responsibility of the Head of the Department responsible for the Order, and conducted after every 1, 2 or 3 years, depending on the importance of the document, from the date of issue or amendment.
- 13.2 This Order will be reviewed annually.

Simon A Smith
Chief Fire Officer

ALTE Language Skills Framework

LEVELS	ALTE Work Typical Abilities			ALTE Overall General Ability		
	Listening/Speaking	Reading	Writing	Listening/Speaking	Reading	Writing
A1 ALTE Breakthrough level	CAN take and pass on simple messages of a routine kind, such as 'Friday meeting 10 am'.	CAN understand short reports or product descriptions on familiar matters, if these are expressed in simple language and the contents are predictable.	CAN write a simple routine request to a colleague, such as 'Can I have 20X please?'	CAN understand basic instructions or take part in a basic factual conversation on a predictable topic.	CAN understand basic notices, instructions or information.	CAN complete basic forms, and write notes including times, dates and places.
A2 Level 1	CAN state simple requirements within own job area, such as 'I want to order 25 of...!'	CAN understand most short reports or manuals of a predictable nature within his/her own area of expertise, provided enough time is given.	CAN write a short, comprehensive note of request to a colleague or a known contact in another company.	CAN express simple opinions or requirements in a familiar context.	CAN understand straightforward information within a known area, such as on products and signs and simple textbooks or reports on familiar matters.	CAN complete forms and write short simple letters or postcards related to personal information.
B1 Level 2	CAN offer advice to clients within own job area on simple matters.	CAN understand the general meaning of non-routine letters and theoretical articles within own work area.	CAN make reasonably accurate notes at a meeting or seminar where the subject matter is familiar and predictable.	CAN express opinions on abstract/cultural matters in a limited way or offer advice within a known area, and understand instructions or public announcements.	CAN understand routine information and articles, and the general meaning of non-routine information within a familiar area.	CAN write letters or make notes on familiar or predictable matters.
B2 Level 3	CAN take and pass on most messages that are likely to require attention during a normal working day.	CAN understand most correspondence, reports and factual product literature he/she is likely to come across.	CAN deal with all routine requests for goods or services.	CAN follow or give a talk on a familiar topic or keep up a conversation on a fairly wide range of topics.	CAN scan texts for relevant information, and understand detailed instructions or advice.	CAN make notes while someone is talking or write a letter including non-standard requests.
C1 Level 4	CAN contribute effectively to meetings and seminars within own area of work and argue for or against a case.	CAN understand correspondence expressed in non-standard language.	CAN handle a wide range of routine and non-routine situations in which professional services are requested from colleague or external contacts.	CAN contribute effectively to meetings and seminars within own area of work or keep up a casual conversation with a good degree of fluency, coping with abstract expressions.	CAN read quickly enough to cope with an academic course, to read the media for information or to understand non-standard correspondence.	CAN prepare/draft professional correspondence, take reasonably accurate notes in meetings or write an essay which shows an ability to communicate.

C2 Level 5	CAN advise on/handle complex delicate or contentious issues, such as legal or financial matters, to the extent that he/she has the necessary specialist knowledge.	CAN understand reports and articles likely to be encountered during his/her work, including complex ideas expressed in complex language.	CAN make full and accurate notes and continue to participate in a meeting or seminar.	CAN advise on or talk about complex or sensitive issues, understanding colloquial references and dealing confidently with hostile questions.	CAN understand documents, correspondence and reports, including the finer points of complex texts.	CAN write letters on any subject and full notes of meetings or seminars with good expression and accuracy.
---------------------------------	--	--	---	--	--	--

Atodiad 3 – datganiadau i'r wasg

I'w ryddhau ar unwaith – Dydd Mawrth, 2il o Awst 2011

Y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gwobrwo ei Ddysgwyr y Flwyddyn 2011

Eleni, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cydnabod dau aelod o'i staff am eu hymroddiad arbennig i ddysgu Cymraeg, ac mae'r ddau wedi cael eu gwobrwo ym mhabel y gwasanaeth tân ac achub ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam (Ddydd Mawrth 2 Awst).

Richie Westwood a Emma O'Hare, sy'n gweithio gyda Thîm Diogelwch Tân Cymunedol y Gwasanaeth yn y Rhyl, oedd dau enillydd gwobr 'Dysgwr y Flwyddyn 2011' wedi iddynt gael eu henwebu gan eu cydweithwyr.

Mae Richie ac Emma wedi bod yn byw yng Nghymru ers tro, ond wedi dechrau dysgu'r Gymraeg yn ddiweddar fel rhan o raglen dysgu Cymraeg y Gwasanaeth ar CD. Trwy weithio fel tîm, aethant yn eu blaenau i basio'r prawf Lefel 2 yn ddiraffferth.

Dywedodd Richie, sy'n byw gyda'i wraig a'i ddau fab yn Rhuallt: "Dw i'n falch iawn o ennill. Aethon ni ati fel tîm efo llawer o help gan ein cydweithwraig Carys Davies yn ein hadran. Mae hi'n un o Bencampwyr y Gymraeg, ac mi wnaeth hi ein cefnogi drwy'r adeg.

"Mi wnaethon ni orchuddio'r waliau efo geiriau ac ymadroddion Cymraeg i'n helpu ni i'w cofio, ac mi wnaethon ni ymarfer y rheini drwy'r amser efo Carys. Efo ychydig o ymdrech, roedd Emma a finnau wedi llwyddo i ddysgu'r geiriau oedd eu hangen i gyrraedd y lefel. Felly, rhaid inni ddiolch yn fawr iawn i Carys!"

Dywedodd Emma O'Hare, sy'n byw ym Mae Colwyn gyda'i gŵr a'i thri phlentyn: "Mi es i ar gwrs wedi ei drefnu trwy'r gwasanaeth tân ac achub, a gwranddo ar y CD yn fy amser hamdden. Yn raddol, roeddwn i'n cael mwy o hyder a geirfa a dw i'n gobeithio parhau i ddatblygu fy sgiliau yn yr iaith. Mi ges i dipyn bach o help gan fy merch hynaf sydd yn y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd – mi wnaethon ni ymarfer llawer efo'n gilydd, gan fynd ar nerfau gweddill y teulu!"

Cyflwynwyd y wobwr haeddiannol i Richie ac Emma gan Colin Hanks, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, a Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Talodd Colin Hanks deyrnged i'r ddau ohonynt: "Rydym ni'n byw mewn cymuned ddwyieithog, ac fel Gwasanaeth rydym ni'n credu ei bod yn eithriadol bwysig ein bod ni'n gallu cydnabod pwysigrwydd ein diwylliant a'n treftadaeth Gymraeg a bod cymaint o'n staff â phosib yn gallu sgwrsio gyda thrigolion yr ardal yn yr iaith o'u dewis.

"Yn ddiweddar, mi wnaethon ni sefydlu criw o Bencampwyr y Gymraeg o fewn y Gwasanaeth i roi cymorth i'n staff ddysgu Cymraeg fel bod mwy o fentora a chefnogi'n digwydd mewn lleoliadau trwy'r gogledd, ac yn amlwg mae Richie ac Emma wedi llawer o fudd o'r fenter yma.

“Roeddem yn llwyr gytuno efo enwebydd y wobr yma fod Richie ac Emma yn dangos ymroddiad a phenderfyniad gwirioneddol i ddysgu'r iaith – gobeithio y bydd yn annog rhai eraill i wneud yr un fath a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Llongyfarchiadau mawr a da iawn i'r ddau ohonynt.”

Dywedodd Meri Huws: “Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn hynod falch o gefnogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wrth iddynt gydnabod ymdrechion eu staff i ddysgu Cymraeg. Llongyfarchiadau mawr i Richie ac Emma – rydym yn dymuno'n dda iddyn nhw a dysgwyr eraill yn y Gwasanaeth wrth barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, ac yn edrych ymlaen i barhau i gydweithio gyda'r gwasanaeth tân ac achub wrth hyrwyddo'r iaith.”

Lluniau ynghlwm: Colin Hanks a Meri Huws yn llongyfarch enillwyr Dysgwr y Flwyddyn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2011, Richie Westwood ac Emma O'Hare.

Nodyn i Olygyddion

Am ragor o wybodaeth am y datganiad hwn i'r wasg, cysylltwch â'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol ar 01745 535 285.

I'w ryddhau ar unwaith – Dydd Gwener 8 Mehefin, 2012

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gwobrwo Dysgwr Y Flwyddyn 2012

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi mai Sarah Roberts yw Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn am eleni yn ystod seremoni wobrwo ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon yr wythnos hon.

Fe enillodd Sarah, pennaeth tîm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, y wobr 'Dysgwr y Flwyddyn' ar ôl cael ei henwebu gan ei chydweithwyr.

Mae Sarah wedi byw yng Nghymru ers ei bod yn dair blwydd oed, ond dim ond ers wyth mlynedd mae hi wedi bod yn dysgu Cymraeg. Fe ddefnyddiodd Sarah'r rhaglen dysgu Cymraeg ar CD i staff y Gwasanaeth Tân ac Achub i basio'r profion lefel 1 a 2 ac yna llwyddodd i gwblhau'r cyrsiau lefel 3 a 4 a'r profion llafar.

Meddai Sarah, sydd yn byw gydag Wyn, ei gŵr, yn Nhal-y-bont yn Nyffryn Conwy: “Rydw i wedi clywed y Gymraeg yn cael ei siarad gan eraill ar hyd fy oes gan fod fy mam a'm gŵr yn Gymry Cymraeg. Saesneg yw iaith gyntaf fy nhad ac er ei fod wedi ceisio dysgu Cymraeg pan symudodd o Swydd Efrog i

Gymru, Saesneg oedd iaith y cartref. Roeddwn yn aelod o'r Urdd pan oeddwn yn yr ysgol gynradd yng Nghonwy, ond nes i ddim astudio'r Gymraeg yn yr ysgol uwchradd gan y byddai hynny wedi golygu rhoi'r gorau i un o'r pynciau gwyddoniaeth. Roedd fy mryd ar fod yn beiriannydd ac ymuno â'r Llynges Frenhinol. Doedd gennym ni ddim cyfrifiaduron na ffonau clyfar y dyddiau hynny!"

"Pan oeddwn i yn gweithio i Heddlu Gogledd Cymru, sylweddolais 'mod i'n dyheu am gael cyfathrebu gyda phobl yn Gymraeg. Cefais fy ysbrydoli i ddysgu Cymraeg ac ar ôl ymuno gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru chwe blynedd yn ôl ac rydw i wedi parhau i ddysgu gan ddefnyddio'r rhaglen CD a mynychu gwersi i gyrraedd lefel 4."

Mae Sarah yn credu bod gwranddo ar y Gymraeg yn cael ei siarad o'i chwmpas wedi bod yn help mawr o safbwynt dysgu sut i ynganu geiriau ac mae'n gobeithio parhau i wella ei sgiliau iaith Gymraeg: "Rydw i wedi treulio llawer o amser yn ymarfer ac adolygu ond rydw i'n gwybod hefyd fod gwranddo ar y Gymraeg yn cael ei siarad wedi bod o gymorth mawr."

"Rydw i bob amser yn ceisio dysgu mwy gan fy nghydweithwyr Cymraeg ac yn ymarfer gyda hwy bod cyfle posib. Roedd ambell i air wedi aros yn y cof dros y blynyddoedd ond bellach rydw i'n medru llunio brawddegau yn hyderus iawn. Rydw i'n sgwrsio ac yn anfon ebyst syml i'm cydweithwyr yn y Gwasanaeth Tân ac Achub a phobl o sefydliadau eraill."

"Mae fy mam wedi bod yn dioddef o glefyd Alzheimers ers ei 50au cynnar. Mae'n haws cyfathrebu gyda hi yn Gymraeg gan mai dyma yw ei hiaith gyntaf hi. Mae hefyd yn braf gallu siarad Cymraeg gydag aelodau eraill y teulu, er mod i'n drysu rhwng y tafodieithoedd gwahanol o dro i dro gan fod fy nheulu i'n dod o Fôn a theulu'r gŵr yn dod o Wynedd!"

Dawn Docx, Y Dirprwy Brif Swyddog Tân, a gyflwynodd y wobr i Sarah. Meddai: "Rydym yn byw mewn cymuned ddwyieithog ac fel Gwasanaeth rydym yn credu ei bod yn hynod bwysig ein bod yn cydnabod pa mor bwysig yw diwylliant a threftadaeth Cymru yn ogystal â chyfathrebu gyda thrigolion yn eu hiaith ddewisol."

"Rydym wedi sefydlu grŵp o Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth sydd ar gael i helpu ein staff i ddysgu Cymraeg a bod yn fentoriaid a chynnig cefnogaeth mewn nifer o leoliadau ar hyd a lled y Gogledd. Mae Sarah wedi elwa o'r fenter hon."

"Roedd pawb yn cytuno gyda'r sawl a enwodd Sarah ei bod hi wedi dangos

ymrwymiad ac wedi gweithio'n ddiflino i ddysgu Cymraeg - gyda lwc bydd hyn yn annog eraill i ddysgu'r iaith a gwneud yn fawr o'r sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddi hi."

Nodyn i Olygyddion

Am ragor o wybodaeth am y datganiad hwn i'r wasg, cysylltwch â'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol ar 01745 535 285.

Atodiad 4 – Cyngor Pob Pythefnos i'r Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg

AT SYLW: HYRWYDDWYR YR IAITH GYMRAEG / FAO: WELSH LANGUAGE CHAMPIONS

Annwyl bawb

Mae'r daflen waith yma yn canolbwyntio ar gael y dysgwyr i ddweud stori drwy edrych ar y lluniau ar y daflen. Mae'n ffordd o'u hannog i chwilota am y gair cywir o blith eu geirfa. Mae hefyd tasg gyfieithu ar y daflen sydd yn sôn am fynd ar wyliau.

Gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i chi. Fel arfer, mae copi o'r daflen waith wedi cael ei llwytho ar y fewnrwyd (Eraill/Yr Iaith Gymraeg/Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg/Cyngor pob pythefnos). Mae'r rhain hefyd ar gael i ddysgwyr ar y fewnrwyd dan Eraill/Yr Iaith Gymraeg /Gwybodaeth i Ddysgwyr.

Cofiwch anfon eich adroddiadau misol ataf. Y mae hefyd groeso i chwi gysylltu â mi i drafod unrhyw beth ym maes y Gymraeg ar 01745 535284 neu nici.sion@gwastan-gogcymru.org.uk.

Dear all

This week's work sheet concentrates on storytelling by looking on the images on the sheet. This is a great way for learners to search their vocabulary for the right word. There is also a translation task that talks about going on holiday on the worksheet

I hope you'll find this useful. As usual all these ideas have been uploaded onto the intranet (Other/The Welsh Language/Welsh Language Champions). They are also accessible to learners on the intranet under Other/The Welsh Language/The Welsh Language/Information for learners.

Keep sending me your monthly return forms. Should you need any advice regarding the Welsh language, please get in touch on 01745 535 284 or nici.sion@nwales-fireservice.org.uk

Hwyl i chi am y tro!

Níci

Níci Siôn

Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg /
Translator and Welsh Language Liaison Officer

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru/North Wales
Fire and Rescue Service HQ

nici.sion@nwales-fireservice.org.uk

nici.sion@gwastan-gogcymru.org.uk

Ffôn / Telephone: 01745 535284

Ffôn Symudol / Mobile Phone: 07787578405

DWEUD STORI
TELLING A STORY

Edrychwch ar y lluniau a dudwch y stori.
Look at the pictures and tell the story.



1. Mi aeth Moi ar wyliau i
2. Mi aeth o i weld y mynyddoedd a'r
3. Mi chwaraeodd o dennis ar y traeth a
4. Mi nofiodd o yn y môr ac mi orweddodd o yn yr haul.
5. Mi fwytodd o lawer o
6. Mi dynnodd o luniau o
7. Mi anfonodd o gerdyn post adre i'r teulu.
8. Mi fwytodd o hufen-iâ bob dydd.
9. Mi siopodd o ac mi brynodd o
10. Mi aeth o i barti neu ddisgo bob nos.
11. Mi brynodd o anrheg i'r teulu.
12. Mi aeth o adre ar ôl cael gwyliau bendigedig.

Cyfieithwch:

Translate:

1. *Moi went on holiday to*
2. *He went to see the mountains and*
3. *He played tennis on the beach and*
4. *He swam in the sea and he lay in the sun.*
5. *He ate a lot of*
6. *He took pictures of*
7. *He sent a postcard home to the family.*



8. *He ate ice-cream every day.*
9. *He shopped and bought*
10. *He went to a party or disco every night.*
11. *He bought a present for the family.*
12. *He went home after having a fantastic holiday.*

Rwan, dudwch stori am chwaer Moi.
Now, tell a story about Moi's sister.

Atodiad 5 – Ebyst Mercher ‘Marfer

Mercher ‘Marfer eto yfory – ymgyrch i godi proffil gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae'n ddydd Mercher cyntaf mis Ionawr ac unwaith eto dyma ychydig o syniadau i'ch helpu i wneud ymdrech i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle – yn ogystal ag adre'.

Blwyddyn Newydd Dda i chi 'gyd. A hithau'n flwyddyn newydd beth am wneud adduned i ddysgu neu ddefnyddio eich Cymraeg? Mae Adran Cymraeg i Oedolion Prifysgol Bangor yn cynnig nifer o gyrsiau yn eu [Hysgol Galan](#). Waeth beth yw eich lefel, mae cwrs ar gael i chi.

Cofiwch y bydd rhifyn Ionawr Y Fflam ar y fewnwyd fory felly beth am ddarllen y fersiwn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg?

Fel arfer, mae yna syniadau ychwanegol i chi ymarfer eich Cymraeg wrth weithio ar y fewnwyd [Ideas for learners / Syniadau i ddysgwyr](#)

A pheidiwch anghofio gofyn am help gan un o'n hyrwyddwyr iaith os angen – mae yna restr ohonynt ar y fewnwyd [Pwy yw eich Hyrwyddwyr Gymraeg?](#)

Ac yn olaf **Ymadrodd y Mis**. Beth am 'Marfer y frawddeg hon i ddathlu diwrnod nawddsant cariadon Cymru ar y 25ain o Ionawr : Diwrnod Santes Dwynwen Hapus!

It's Welsh Wednesday again tomorrow – a campaign to raise the profile of being able to use Welsh in the workplace.

It's the first Wednesday of January and here's a little encouragement again for you to make an extra effort to use more Welsh at work – as well as at home.

Blwyddyn Newydd Dda! / Happy New Year!. At the start of a new year why not make it your New Year's Resolution to learn or make use of your Welsh. The Welsh For Adults Centre at Bangor University has a wide range of courses to suit all levels at their [New Year School](#).

The latest edition of the Fflam will be published on our intranet site tomorrow. Why not take time to read the Welsh version as well as the English?

There are additional ideas for you to practice your Welsh at work available on the intranet [Ideas for learners / Syniadau i ddysgwyr](#)

And don't forget - ask a Welsh language champion if you need help – there's list of them on the intranet [Who are your Welsh Language Champions?](#)

And lastly **Ymadrodd y Mis** (Phrase of the Month). Why not practice this sentence over the next few weeks in time to celebrate St Dwynwen's Day (the patron saint of Welsh lovers) on the 25th of January: Diwrnod Santes Dwynwen Hapus (Happy St Dwynwen's Day).

Nici Siôn

Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg /
Translator and Welsh Language Liaison Officer

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru/North Wales
Fire and Rescue Service HQ
nici.sion@nwales-fireservice.org.uk
nici.sion@gwastan-gogcymru.org.uk
Ffôn / Telephone: 01745 535284
Ffôn Symudol / Mobile Phone: 07920084618
Ffacs / Fax: 01745 535296

Mercher ‘Marfer eto yfory – ymgyrch i godi proffil gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae'n ddydd Mercher cyntaf mis Chwefror ac unwaith eto dyma ychydig o syniadau i'ch helpu i wneud ymdrech i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle – yn ogystal ag adre'.

Digwyddiadau

Dathlu fu'n hanes ni ddydd Gwener diwethaf gyda'r Urdd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90.

Er ein bod yn cysylltu'r Urdd â'r eisteddfod, mae nifer o weithgareddau yn mynd ymlaen drwy gydol y flwyddyn ym mhob cwr o Gymru megis aelwydydd wythnosol, cystadlaethau, chwaraeon, teithiau tramor, cyfleoedd i wirfoddoli dramor, teithiau i wersylloedd yr Urdd yng Nglan Llyn, Caerdydd, Pentre Ifan a Llangrannog a llawr mwy!

Mae dysgu iaith newydd yn ymwneud â llawer mwy nag ailadrodd geiriau, mae gofyn i chi gael blas ar hanes, diwylliant a threftadaeth y wlad. Os oes gennych blant dan 18 oed pam na wnewch chi eu hannog i ymaelodi â'r Urdd. Cewch gyfle i sgwrio yn Gymraeg gyda'r gwirfoddolwyr yn yr aelwydydd a chyfle i weld y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn awyrgylch naturiol. Cewch ragor o fanylion am yr Urdd drwy holi yn yr ysgol neu ewch i'w [gwefan](#).

- Mae Penwythnos Cymraeg i'r Teulu wedi ei threfnu yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog 17-17 Chwefror, am ragor o wybodaeth galwch 01443 483 600.
- Bydd rhagor o ddathliadau yn Ninbych ddydd Sadwrn nesaf (11/2/12). Mae Canolfan Iaith Clwyd (pencadlys Popeth yn Gymraeg) yn 20 oed. Bydd bore o weithgareddau i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn y Ganolfan. Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost at ioan@popethcymraeg.com neu ffoniwch 01745 812287.
- Yr wythnos diwethaf fe agorwyd canolfan Gymraeg yn Wrecsam, Canolfan Saith Seren. Nod y Ganolfan yw hyrwyddo iaith a diwylliant a normaleiddio'r Gymraeg fel iaith Gymunedol. www.saithseren.com

Yn y gweithle

Mae'r Adran TGCh bellach wedi lawr lwytho meddalwedd 'to bach' ar bob cyfrifiadur. Dyma feddalwedd sy'n ei gwneud hi'n haws i ychwanegu acenion Cymraeg ar lythrennau, megis â ê î ô û w y ac ati. Mae'r feddalwedd yn ddigon hawdd i'w defnyddio ond ceir cyfarwyddiadau defnyddiol [yma](#).

Ac yn olaf **Ymadrodd y Mis**. Beth am ymarfer y frawddeg yma i'w defnyddio yn y swyddfa ar Fawrth 1af: Dydd Gŵyl Dewi hapus!

It's Welsh Wednesday again tomorrow – a campaign to raise the profile of being able to use Welsh in the workplace.

It's the first Wednesday of February and here's a little encouragement again for you to make an extra effort to use more Welsh at work – as well as at home.

Events

Last week the people of Wales celebrated the 90th birthday of the Urdd.

Although we usually associate the Urdd with the annual eisteddfod, the Urdd organises hundreds of events across Wales all year round such as weekly clubs, sports, competitions, trips abroad, volunteering opportunities, camping trips to the Urdd centres in Glan Llyn, Pentre Ifan, Cardiff and Llangrannog and much more.

Learning a language involves more than merely repeating words, it involves immersing yourself in that country's history, culture and heritage. If you have children who are under 18, why not encourage them to join the Urdd. You'll get the opportunity to speak Welsh with volunteers at the 'aelwydydd' (weekly clubs) and you will be able to listen to the language being spoken in a natural environment. For further information about the Urdd visit the [website](#) or ask at your child's school.

- A Welsh Weekend for the Family will be held at the Urdd Centre in Llangrannog between 17-19 February. For further information call 01443 483 600.
- Next weekend (11.2.12) Canolfan Iaith Clwyd (Clwyd Language Centre) in Denbigh will be celebrating the centre's 20th anniversary. On Saturday morning there will be activities for Welsh learners at the Centre. For further information contact ioan@popethcymraeg.com or phone 01745 812287
- Last week, a new language centre was opened in Wrexham, Canolfan Saith Seren (Seven Stars Centre). The Centre aims to promote language and culture as well as normalising the Welsh language as an integral part of the community. www.saithseren.com

Welsh at Work

The ICT department has installed new Welsh language software on all servers. This software allows the user to input Welsh language accents onto letters such as â ê î ô û ŵ ŷ. The software is straightforward to use but a user's guide is available by clicking [here](#).

And lastly **Ymadrodd y Mis** (Phrase of the Month). Why not practice this sentence over the next few weeks in time to celebrate St David's Day on 1st March: Dydd Gŵyl Dewi hapus! (Happy St David's Day!)

Nici Siôn

Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg /
Translator and Welsh Language Liaison Officer

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru/North Wales
Fire and Rescue Service HQ

nici.sion@nwales-fireservice.org.uk

nici.sion@gwastan-gogcymru.org.uk

Ffôn / Telephone: 01745 535284

Ffôn Symudol / Mobile Phone: 07787578405
Ffacs / Fax: 01745 535296

Mercher 'Marfer eto yfory – ymgyrch i godi proffil gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae'n ddydd Mercher cyntaf mis Mawrth ac unwaith eto dyma ychydig o syniadau i'ch helpu i wneud ymdrech i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle – yn ogystal ag adre'.

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Diolch yn fawr i bawb a gymrodd ran yn ein cwis Dydd Gŵyl Dewi. Un o ddywediadau enwocaf Dewi oedd 'Gwnewch y pethau bychan' a dyma yr ydym yn ofyn i bawb ei wneud yn y Gwasanaeth. Drwy gymryd rhan yn ein cwis, gwisgo bathodyn, dweud bore da ac yn y blaen, rydych yn tynnu sylw'r gweithlu at y Gymraeg a'n diwylliant ni fel Cymru. Er mai pethau bach ydynt, maent yn bwysig dros ben.

Cafodd pob un wan jac ohonoch yr atebion yn gywir, ond i'r rhai ohonoch na gymrodd ran dyma'r atebion cywir:

Non oedd enw mam Dewi Sant a **Peulin Sant** oedd athro Dewi. Ond dyweder hefyd fod Dewi ymhlith un o ddisgybl Illtyd Sant, felly byddwn wedi derbyn yr ateb hwn hefyd. Yn ôl yr hanes roedd Peulin yn ddall a bu i Dewi ei iachau drwy roi ei ddwylo ar lygaid ei athro. Mae'r lliwiau **Melyn a Du** yn ymddangos ar faner Dewi Sant ac y mae **colomen wen** yn ymddangos ar ei ysgwydd mewn darluniau ac ar gerfluniau. Ei wyrth enwocaf yw **codi'r tir o dan ei draed** er mwyn i'r dorf yr oedd yn ei hannerch gael ei weld.

Dewiswyd yr enillydd ar hap y prynhawn 'ma.
Llongyfarchiadau mawr i **Adrian Angel**, Gweithiwr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref, Swyddfa Ardal Gogledd Gwynedd mae'r hamper ar ei ffordd i chi.

Cyrsiau

Efallai bod eich cariad tuag at yr iaith wedi tyfu ers i Gymru ennill y gwpan driphlyg neu ers dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Os felly, tarwch tra bo'r haearn yn boeth drwy sefyll ein profion lefel 1 a 2 neu drwy glicio [yma](#) am gyrsiau Cymraeg sydd yn lleol i chi.

Mae cwrs arbennig i ddysgwyr neu siaradwyr Cymraeg ail iaith ar fin cael ei gynnal ym Mangor yn fuan iawn. Bwriad y cwrs yw meithrin hyder yn yr iaith drwy gyfrwng drama a chân. Bydd y gwersi hyn yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Saesneg gyda'r nod o drosglwyddo'r iaith wrth ddysgu caneuon a chymryd rhan mewn gweithdai drama. Os oes gennych diddordeb yn y cwrs cysylltwch â cefin.roberts@me.com neu ffoniwch Rhian ar 07879472776

Geiriadur newydd

I'r rhai ohonoch sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn selog yn y gweithle efallai y byddwch yn falch o glywed bod Geiriadur Yr Academi Gymraeg (neu Geiriadur Bruce) bellach ar gael ar lein. Mae'r adnodd anhepgor hwn ar gael ar glicied botwm

ac yn llawer haws na thyrchu mewn cyfrol drwchus. Dilynwch y ddolen [yma](#) i ddechrau pori.

Ymadrodd y Mis

Ac yn olaf, rhowch gynnig ar y linell yma dros yr wythnosau nesaf – ‘Cofiwch droi’r cloc yn ei flaen!’

It’s Welsh Wednesday again tomorrow – a campaign to raise the profile of being able to use Welsh in the workplace.

It’s the first Wednesday of March and here’s a little encouragement again for you to make an extra effort to use more Welsh at work – as well as at home.

St David’s Day Celebrations

Thank you to all of you who took part in our St David’s Day quiz. St David asked us to ‘Do the little things’ / ‘Gwnewch y pethau bychan’ and this is what we were asking all of you in the Service to do. By taking part in our quiz, wearing a Welsh badge, saying ‘bore da’ etc, you are helping to promote the Welsh language amongst your colleagues. These may be ‘little things’, but they are extremely important.

All of you who took part answered the questions correctly, but for those of you who did not take part here are the correct answers:

St David’s mother was called **Non** and **St Paulinus** was David’s teacher. However David is said to have been among one of St Illtud’s many pupils, so I would have also accepted this as the answer. According to the story St Paulinus was a blind monk whom David healed by placing his hands on his teacher’s eyes. The colours **yellow and black** appear on the flag of St David and in many paintings and sculptures he is depicted as having a **dove** perched on his shoulder. His most famous miracle is **making the ground beneath him rise** into a small hill so that the crowd he was preaching to could hear and see him.

This afternoon the winner was chosen at random.
Many congratulations to **Adrian Angel**, HSSW, North Gwynedd Area Office - the hamper is on its way to you.

Courses

You may be feeling patriotic or your love for the Welsh language may have blossomed since Wales won the Triple Crown or since the St David’s Day celebrations. If so strike whilst the iron is hot and sit your level 1 and 2 tests right away or click [here](#) for a list of courses in your local area.

A new course for Welsh learners and second language Welsh speakers will be held in Bangor soon. The course is aimed at increasing confidence when speaking Welsh and improving Welsh language skills through the medium of song and drama. The course will be taught through the medium of English with the hope of improving your Welsh whilst learning songs and taking part in workshops. If you are interested in taking part please get in touch with cefin.robertrs@me.com or phone Rhian on 07879472776

New dictionary

For those of you who use Welsh in the workplace on a daily basis you may be pleased to hear that the Welsh Academy English-Welsh Dictionary is now available on line. This essential resource can be accessed anywhere by the click of a button and is much more convenient than searching through a dusty volume in pursuit of the right word. Click [here](#) to begin searching.

Phrase of the Month

And lastly, why not practise the following phrase over the next few weeks: 'Cofiwch droi'r Cloc yn ei flaen!' (remember to put the clock forwards)

Hwyl fawr

Níci

Níci Siôn

Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg /
Translator and Welsh Language Liaison Officer

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru/North Wales
Fire and Rescue Service HQ

nici.sion@nwales-fireservice.org.uk

nici.sion@gwastan-gogcymru.org.uk

Ffôn / Telephone: 01745 535284

Ffôn Symudol / Mobile Phone: 07787578405

Ffacs / Fax: 01745 535296

Atodiad 6 – Cylch Gorchwyl Grŵp Strategol y Gymraeg

Bydd y Fforwm Iaith Gymraeg yn cyfarfod bob chwarter, ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau i ddatblygu a monitro ei Gynllun Iaith Gymraeg (neu'r 'safonau' a ddaw gan Lywodraeth Cymru yn ei le).

Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg o fewn y Gwasanaeth.

Bydd y Fforwm yn gymorth i godi statws y Gymraeg o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a:

- bydd yn strategol ei natur, yn ogystal ag ymarferol
- bydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisiâu a thargedau yn cael eu gosod a'u cyflawni
- bydd yn sicrhau bod polisiâu a thargedau yn cael eu prif-ffrydio o fewn y Gwasanaeth
- bydd yn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu rhaedru i lawr i'r staff o fewn adrannau unigol.

Bydd gan y Fforwm gysylltiad â chyfarfodydd chwarterol 'Grŵp Iaith' Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA), sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub